Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gŵyl Afon Dyffryn Gwy 2018 a 2020



**Beth yw nodau'r prosiect?**

Nod cyffredinol yr Ŵyl yw annog mwy o bobl i ymweld â thirwedd warchodedig Dyffryn Gwy, ei mwynhau a'i gwerthfawrogi, ac rydym wedi gweld mai'r Ŵyl yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu ag ymwelwyr. Yn 2020, bu'n rhaid inni addasu'r nodau hyn er mwyn adlewyrchu'r angen i gynnal gŵyl ddigidol, gyda'r nod o wneud y canlynol:

- ynnal brwdfrydedd pobl dros yr Ŵyl a Dyffryn Gwy a'u cariad tuag atynt, codi eu hysbryd a'u hwyliau, a gwneud iddynt deimlo'n hapus
- Codi ymwybyddiaeth o'r Ŵyl Afon ddigidol a denu cynulleidfaoedd ar-lein newydd, gan eu hannog i gofrestru ar gyfer digwyddiadau ar-lein
- Hwyluso sgwrs am dirweddau gwarchodedig ac AHNE Dyffryn Gwy
- Arddangos AHNE Dyffryn Gwy fel lle ysbrydoledig sydd â thraddodiad artistig a chreadigol cyfoethog sy'n ffynnu
- Ennyn diddordeb yn Nyffryn Gwy fel lle i ymweld ag ef yn y dyfodol.

**Sut y cyflawnwyd y nodau hyn?**

Yn hytrach na gwneud i bobl eistedd a gwylio Shakespeare, gwnaethom greu rhywbeth gwahanol ac annisgwyl a oedd â chysylltiad uniongyrchol â'r dirwedd warchodedig. Gwnaethom greu gŵyl gelfyddydau syml â diben cymdeithasol cryf, wedi'i llywio gan y dirwedd a'i hysbrydoli gan natur, ac wedi'i gwreiddio yn ein cymunedau. Er enghraifft, gwnaethom gyflwyno Museum of the Moon i Gymru yn Abaty yndyrn, gan greu gwledd weledol mewn lleoliad syfrdanol.

Yn 2020, yn hytrach na chynnal gŵyl ffisegol yn y dirwedd, bu'n rhaid inni gynnal gŵyl ddigidol y gallai pobl ond ei mwynhau ar-lein. Bu'n rhaid inni ddod o hyd i lwyfan digidol newydd ac ail-raglennu digwyddiadau y gellid eu cynnal drwy'r cyfrwng hwn. Felly, gwnaethom gyflawni ein nodau drwy dyfu ein sianeli cymdeithasol a'n presenoldeb ar-lein. Gwnaethom hefyd greu cynnwys a fyddai'n gadael gwaddol – fideos a lluniau y byddai modd eu defnyddio ymhell ar ôl i'r ŵyl ddigidol ddod i ben, a fyddai'n helpu'r gwaith adfer yn dilyn y cyfyngiadau symud. Dyma ddetholiad o fideos a grëwyd fel rhan o brosiect Gŵyl Afon Dyffryn Gwy:

- Fideo hyrwyddo Dyffryn Gwy
- Inspired by the Wye

- Archwilio tirwedd genedlaethol Dyffryn Gwy
- Fideo hyrwyddo Gŵyl Afon 2020
- Archwilio Dyffryn Gwy ar gefn beic
- Archwilio Dyffryn Gwy ar droed ac ar y dŵr

**Pwy oedd yn rhan o'r prosiect**?

Tîm Gŵyl Afon AHNE Dyffryn Gwy, Y Tîm Artistig (Desperate Men a Phil Haynes), ein partneriaid – y Comisiwn Coedwigaeth, Cadw, Cyngor y Celfyddydau, ACE, Ymddiriedolaeth Natur Gwent, gwirfoddolwyr, Cyngor Tref Sir Fynwy, Cyngor Cymuned Tyndyrn, plant ysgolion lleol, ac ati.

**Sut y cafodd y prosiect ei ariannu?**

Cyllid craidd AHNE, grantiau gan Gyngor Celfyddydau Cymru/Arts Council England, y Comisiwn Coedwigaeth, Cadw (a chymorth mewn ffyrdd eraill).

**Gan bwy y cawsoch help a chyngor?**

Gwyliau eraill a sefydliadau ym myd y celfyddydau, Croeso Cymru, cyflenwyr arbenigol.

**Beth fu'r prif gyflawniad hyd yma?**

Gŵyl 2018 oedd ein trydedd ŵyl, a'r un fwyaf llwyddiannus, gyda 32,500 o ymwelwyr a 30 o ddigwyddiadau mewn 25 o leoliadau. Yr uchafbwynt oedd cyflwyno Museum of Moon, gan yr artist rhyngwladol Luke Jerram, yn Abaty Tyndyrn. Ni oedd yr ŵyl gyntaf i raglennu Museum of the Moon yng Nghymru (mae wedi teithio ledled y byd erbyn hyn).

Gwnaethom gomisiynu fideo drôn yn dangos y gwaith o osod y Lleuad, gyda thrac sain glaniad NASA ar y lleuad yn gefndir i'r cyfan, a gwnaethom werthu'r holl docynnau i'r digwyddiad wedi hynny.

Ymddangosodd hefyd mewn segment 6 munud ar S4C ac fel 'llun y dydd' yn The Guardian, y Daily Telegraph a The Times.

Yn 2020, y prif gyflawniad oedd llwyddo i gynnal gŵyl, ar ôl i bob digwyddiad arall gael ei ganslo. Roedd hyn yn golygu y gallem gadw artistiaid mewn gwaith, a oedd yn hanfodol bwysig iddynt, a chyflwyno ychydig o adloniant ysgafn i'n cynulleidfaoedd.

**A'r her fwyaf?**

Canslo gŵyl ffisegol wyth wythnos cyn y digwyddiad ac yna benderfynu cynnal gŵyl ddigidol ym mis Medi 2020.

**Unrhyw awgrymiadau i'r rheini sy'n sefydlu prosiectau tebyg?**

Byddwch yn glir ynghylch y rheswm pam rydych am ei wneud. Siaradwch â phobl sydd â phrofiad o wneud yr un peth. Dyblwch y gyllideb a'r amser y bydd eu hangen yn eich barn chi …

Beth nesaf ar gyfer eich prosiect?

Ar ôl i'r Wyl gael ei sefydlu, y nod hirdymor bob amser oedd ei throsglwyddo i sefydliad annibynnol i'w datblygu. Felly, yn 2021, sefydlwyd Cwmni Buddiannau Cymunedol newydd, ac mae'r AHNE bellach wedi trosglwyddo'r gwaith o reoli a chynnal gwyliau yn y dyfodol iddo. Cynhelir yr Ŵyl (gobeithio) rhwng 27 Mai a 5 Mehefin 2022.

